# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 12 Hydref 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

## 24(v3)

### 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 3 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

(60 munud)

**NDM(6089)**

Lee Waters (Llanelli)
Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)
Huw Irranca-Davies (Ogwr)
John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod amryfal fanteision iechyd a lles gweithgaredddau corfforol.

2. Yn nodi mai dim ond 35 y cant o blant Cymru sy'n cael yr awr o weithgareddau corfforol a gaiff ei argymell sydd ei angen arnynt bob dydd.

3. Yn cydnabod potensial Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 i godi lefelau gweithgareddau corfforol ymysg pob grŵp oedran.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgysylltu'n llawn â chymunedau i ganfod y llwybrau newydd a fyddai'n cysylltu cyrchfannau lleol ac a fyddai fwyaf tebygol o gael defnydd da.

'Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013'

**Cefnogir gan**

David Melding (Canol De Cymru)

Janet Finch-Saunders (Aberconwy)

## Cwestiwn Brys

**Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Beth yw ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiadau bod British Airways yn ystyried torri 66 o swyddi yn ei gyfleuster cynnal a chadw ym Maes Awyr Caerdydd?

## 4 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM6115** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu bod y rhagfarn tuag at y rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl, neu sydd wedi cael problemau iechyd meddwl, yn parhau, a'r effaith a gaiff hyn ar gyflogaeth, incwm a llesiant y rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl.

2. Yn credu y dylai addysg yn ymwneud ag iechyd meddwl ddechrau pan fo disgyblion yn ifanc ac y dylai ysgolion gael yr adnoddau i hyrwyddo llesiant ymysg pob disgybl.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) parhau i fynd i'r afael â rhagfarn a chwilio am bwerau dros gyfraith cyflogaeth er mwyn gallu cryfhau ffyrdd o ddiogelu pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn y gwaith; a

b) sicrhau bod yr holl wasanaethau cyhoeddus yn archwilio ffyrdd y gellir gwella eu harferion eu hunain i gyfrannu at well iechyd meddwl.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro):**

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) rhoi terfyn ar weithio digyswllt wrth ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl; a

b) gweithio ar draws y sector cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl, gan hyrwyddo technegau ataliol, fel therapïau siarad ac ymwybyddiaeth ofalgar.

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Yn is-bwynt 3a, dileu 'a chwilio am bwerau dros gyfraith cyflogaeth er mwyn gallu cryfhau ffyrdd o ddiogelu pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn y gwaith' a rhoi yn ei le:

'yn y gweithle a gweithio gyda chyflogwyr i sicrhau cefnogaeth i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn y gwaith.'

## 5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM6114** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod bod angen deddfwriaeth benodol ar gyfer awtistiaeth, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno bil awtistiaeth (Cymru) yn ystod tymor y Pumed Cynulliad.

## 6 Cyfnod pleidleisio

## 7 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6116** Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Ymuno â'r Achos: Menywod, Cymru a'r Gymanwlad - rôl Menywod Seneddol y Gymanwlad yn y cyfnod ar ôl gadael yr UE

'Commonwealth Women Parliamentarians' *(Saesneg yn unig)*

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 18 Hydref 2016

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 5 Hydref 2016 i'w hateb ar 12 Hydref 2016

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

**1.** Vikki Howells (Cwm Cynon): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ffermwyr yng Nghwm Cynon? OAQ(5)0042(ERA)

**2.** Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y risg o lifogydd yng Ngorllewin Clwyd? OAQ(5)0040(ERA)

**3.** Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer cymunedau gwledig ledled Canol De Cymru yn y Pumed Cynulliad? OAQ(5)0041(ERA)

**4.** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fio-ddiogelwch ar ffermydd Cymru? OAQ(5)0044(ERA)**W**

**5.** Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o gostau a manteision tebygol cydymffurfio â'r gyfarwyddeb nitradau ar gyfer busnesau unigol yn yr ardaloedd dynodedig arfaethedig? OAQ(5)0046(ERA)

**6.** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd): Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i ehangu mynediad i awyr agored gwych Cymru? OAQ(5)0049(ERA)

**7.** Lynne Neagle (Torfaen): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd mewn perthynas ag arddangosfeydd symudol o anifeiliaid, gan gynnwys anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol? OAQ(5)0052(ERA)

**8.** Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymchwiliad Cyfoeth Naturiol Cymru i'r tân yn safle South Wales Wood Recycling ger Heol y Cyw? OAQ(5)0039(ERA)

**9.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith amgylcheddol cynlluniau'r Grid Cenedlaethol ar draws Ynys Môn? OAQ(5)0050(ERA)**W**

**10.** Nick Ramsay (Mynwy): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau ariannu Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi arfordir Cymru? OAQ(5)0048(ERA)

**11.** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynllun morol cenedlaethol i Gymru? OAQ(5)0043(ERA)**W**

**12.** Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am brosiectau ailgylchu yn Nwyrain De Cymru? OAQ(5)0036(ERA)

**13.** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y bydd polisïau ynni Llywodraeth Cymru yn arwain at arallgyfeirio o ran y cymysgedd ynni? OAQ(5)0045(ERA)

**14.** Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am wahardd defnyddio maglau yng Nghymru? OAQ(5)0047(ERA)

**15.** Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau sy'n cael eu cymryd i rwystro afonydd rhag gorlifo? OAQ(5)0038(ERA)

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

**1.** Lee Waters (Llanelli): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fesurau i helpu pobl ifanc sy'n gadael gofal i gael mynediad at dai fforddiadwy? OAQ(5)0052(CC)

**2.** Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â thlodi yng Nghymru? OAQ(5)0039(CC)

**3.** Vikki Howells (Cwm Cynon): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella mynediad at chwarae i blant yng Nghwm Cynon? OAQ(5)0043(CC)

**4.** Hannah Blythyn (Delyn): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau adfywio tai yng Nghymru? OAQ(5)0050(CC)

**5.** Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sicrhau na wahaniaethir yn erbyn pobl sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw? OAQ(5)0054(CC)

**6.** Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Dechrau'n Deg? OAQ(5)0040(ERA)

**7.** Jeremy Miles (Castell-nedd): A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i'r YMCA yng Nghymru? OAQ(5)0050(CC)

**8.** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd): Beth yw'r camau nesaf y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella profiadau blynyddoedd cynnar plant yng Nghymru? OAQ(5)0047(CC)**R**

**9.** Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): Sut y bydd y polisïau yn rhaglen Llywodraeth Cymru, 'Symud Cymru Ymlaen', yn gwella cymorth i gyn-filwyr yng Nghymru? OAQ(5)0037(CC)

**10.** Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i gynyddu'r ddarpariaeth dai ar draws Canol De Cymru? OAQ(5)0042(CC)

**11.** Vikki Howells (Cwm Cynon): Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer hyrwyddo adfywio yng Nghwm Cynon? OAQ(5)0044(CC)

**12.** David Rees (Aberafan): A wnaiff y Gweinidog nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi'r sector gwirfoddol ledled Cymru yn y Pumed Cynulliad? OAQ(5)0051(CC)

**13.** Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni) A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru? OAQ(5)0046(CC)

**14.** Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r gwahanol hawliau a roddir i denantiaid awdurdodau lleol a thenantiaid landlordiaid cymdeithasol cofrestredig? OAQ(5)0048(CC)

**15.** Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): Sut y bydd y polisïau yn rhaglen Llywodraeth Cymru, 'Symud Cymru Ymlaen', yn mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern yng Nghymru? OAQ(5)0038(CC)